OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2014 No. 3266

# Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2014

## RHAN 1

## Cyflwyniad

### Enwi, cymhwyso a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2014.

(2) Maent yn gymwys o ran Cymru ac yn dod i rym ar 30 Ebrill 2015.

### Diddymu adran 1(1) o Ddeddf Bridio Cŵn 1973

**2.** Yn adran 1 o Ddeddf Bridio Cŵn 1973 (trwyddedu sefydliadau bridio cŵn), ar ôl is-adran (1) mewnosoder—

"(1A) Subsection (1) does not apply in relation to Wales."

### Dehongli

**3.** Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "amodau trwydded" ("*licence conditions*") yw'r amodau hynny a bennir yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau hyn ac unrhyw amodau ychwanegol a osodir ynghlwm wrth drwydded gan yr awdurdod lleol;

ystyr "arolygydd" ("*inspector*") yw unrhyw berson sydd ag awdurdod ysgrifenedig gan awdurdod lleol i weithredu mewn materion sy'n codi o dan, neu mewn cysylltiad â'r Ddeddf neu'r Rheoliadau hyn;

ystyr "awdurdod lleol" ("*local authority*") yw'r cyngor sir neu'r cyngor bwrdeistref sirol lle y mae'r ceisydd am y drwydded o dan reoliad 7 yn cynnal y gweithgaredd o fridio cŵn yn ei ardal;

ystyr "ci bach" ("*puppy*") yw ci sy'n iau na 6 mis oed;

ystyr "ci llawndwf" ("*adult dog*") yw ci nad yw'n iau na 6 mis oed;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Lles Anifeiliaid 2006;

ystyr "gast fridio" ("*breeding bitch*") yw gast heb ei hysbaddu, nad yw'n iau na 6 mis oed;

ystyr "gweinydd llawnamser" ("*full time attendant*") yw person sy'n gweithio am o leiaf 37 awr yr wythnos, naill ai am dâl neu'n ddi-dâl, ym mangre deiliad y drwydded;

ystyr "gweinydd rhan-amser" ("*part time attendant*") yw person sy'n gweithio rhwng 18.5 a 37 awr bob wythnos, naill ai am dâl neu'n ddi-dâl, ym mangre deiliad y drwydded;

ystyr "rhaglen gymdeithasoli" ("*socialisation programme*") yw dogfen a gymeradwywyd mewn ysgrifen gan yr awdurdod lleol, sy'n manylu ar sut y gwneir i gŵn bach ymgynefino â chael eu trin gan bobl, amgylcheddau domestig a chwarae, a sut i'w paratoi ar gyfer eu gwahanu oddi wrth y fam;

ystyr "rhaglen gymdeithasoli ddrafft" ("*draft socialisation programme*") yw dogfen sy'n manylu ar sut y gwneir i gŵn bach ymgynefino â chael eu trin gan bobl, amgylcheddau domestig a chwarae, a sut i'w paratoi ar gyfer eu gwahanu oddi wrth y fam, a gyflwynir gan y ceisydd i'r awdurdod lleol o dan reoliad 7;

ystyr "rhaglen wella a chyfoethogi" ("*enhancement and enrichment programme*") yw dogfen a gymeradwywyd mewn ysgrifen gan yr awdurdod lleol, sy'n manylu ar y modd y rhoddir cyfleoedd i gŵn fynegi patrymau ymddygiad naturiol;

ystyr "rhaglen wella a chyfoethogi ddrafft" ("*draft enhancement and enrichment programme*") yw dogfen sy'n manylu ar y modd y rhoddir cyfleoedd i gŵn fynegi patrymau ymddygiad naturiol, a gyflwynwyd gan y ceisydd i'r awdurdod lleol o dan reoliad 7;

ystyr "trwydded" ("*licence*") yw trwydded a roddir o dan reolad 8.